# Strategaeth Tlodi Plant Cymru – Adroddiad Cynnydd 2025

Fersiwn ar gyfer pobl ifanc

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Helo

## Mae byw mewn tlodi yn gwneud bywyd yn anoddach, yn enwedig i blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru fyw bywydau iach a hapus. Rydyn ni am iddyn nhw gael popeth maen nhw ei angen.

Ond mae llawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

**Tlodi** – pan nad oes gan bobl ddigon o arian i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a chymryd rhan mewn bywyd bob dydd. Gall hyn olygu cael trafferth talu am fwyd, dillad, gwres, trafnidiaeth, costau ysgol, neu bethau eraill.

Mae yna lawer o heriau:

Mae bwyd, tanwydd a thai i gyd yn costio mwy.

Nid yw incwm a chyflogau wedi codi digon i dalu'r costau mwy hyn.

Dim ond Llywodraeth y DU all newid rhai pethau. Mae hynny'n cynnwys y budd-daliadau mae pobl yn eu cael, trethi a'r arian rydyn ni'n ei gael i helpu pobl.

## Mae'r Adroddiad hwn yn dweud wrthych chi am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ddelio â thlodi dros y 3 blynedd diwethaf.

(O 2022 i 2025)

Yn 2024 fe wnaethom ni lansio Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru. Bydd y strategaeth newydd hon yn ein helpu i frwydro yn erbyn tlodi a chreu Cymru gryfach a gwell i bawb. Mae'n nodi ein nodau a'n camau gweithredu i leihau tlodi.

Roedd **1,402** o blant a phobl ifanc yn rhan o ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant Cymru.


Mae **31%** o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol. (2024)

**Mae hynny'n ormod.**

**Tlodi incwm cymharol** – pan fydd incwm teulu yn llai na 60% o'r incwm cyfartalog.







# Ein gweledigaeth

Cymru – cenedl sy'n helpu pob plentyn a pherson ifanc i gael eu hawliau, profi lles da a chyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.





## I'n helpu i ysgrifennu'r Adroddiad hwn

- Fe wnaethom ni ddefnyddio'r adroddiad Fframwaith Monitro. Fe wnaeth ein helpu ni i ddeall pa mor dda mae ein nodau o dan y Strategaeth Tlodi Plant yn cael eu cyflawni.
- Fe wnaethom wrando ar brofiadau byw dros 3,000 o bobl ledled Cymru.
- Fe wnaethom edrych ar dystiolaeth a gasglwyd gan sefydliadau eraill.

## Dywedodd pobl wrthym ni...

"Fe wnaeth cyllid gofal plant ein cadw ni mewn gwaith."

"Mae mynediad at help gyda'r Dreth Gyngor wedi lleddfu rhywfaint o'r pwysau ariannol rydyn ni'n eu hwynebu, gan ei gwneud hi'n haws rheoli costau hanfodol eraill."

"Byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr pe bai ffordd syml, hygyrch o wirio am wahanol fudd-daliadau mewn 1 lle"

"Mae prydau ysgol yn ddefnyddiol iawn – mae'n lleihau straen a phryderon ariannol"

"Mae banciau bwyd wedi darparu cymorth hanfodol yn ystod amseroedd anodd."

"Dywedodd pobl ifanc eu bod nhw'n poeni am gael gwaith wedi iddyn nhw adael yr ysgol. Roedden nhw'n siarad am y cylch dieflig o beidio â chael digon o brofiad."

"Helpu pobl ifanc gyda chost ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus fel y gallant fynd i'r gwaith neu weld ffrindiau."

"Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, dywedodd plant a phobl ifanc na allant fforddio gweld eu ffrindiau neu eu teulu."

"Rwy'n credu y byddai'r gwahaniaeth mwyaf yn dod o weithgareddau mwy fforddiadwy a hygyrch i blant a phobl ifanc."

"Y ganolfan gynnes maen nhw'n rhedeg yma. Rwy'n aml yn galw heibio a chael paned a sgwrs - mae'n dod â'r gymuned at ei gilydd."

Roedd **68%** o blant a phobl ifanc yn teimlo bod cael eu bwlio neu pobl yn edrych i lawr arnynt fwyaf tebygol o effeithio ar blant sy'n byw mewn tlodi.
Arolwg Plant yng Nghymru

# Nod 1: Lleihau costau a sicrhau bod gan deuluoedd ddigon o arian ar gyfer bwyd, gwres a diwallu eu hanghenion.

## Yr hyn rydym ni wedi'i wneud i roi mwy o arian ym mhocedi pobl

### Helpu pobl i gael yr holl fudd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt

Cafodd mwy na **256,000 o aelwydydd** gefnogaeth gyda biliau'r Dreth Gyngor, gyda mwy na **216,000** o aelwydydd yn talu dim o'r Dreth Gyngor o gwbl (ym mis Mawrth 2025).

Fe wnaeth Y Gronfa Gynghori Sengl **helpu dros 388,000 o bobl** i gael incwm ychwanegol ac i ddileu dyledion (o fis Ionawr 2020 i fis Mawrth 2025).

Cafodd dros **500,000** o geisiadau eu cymeradwyo trwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'n rhoi arian brys i dalu am bethau fel bwyd, tanwydd neu bethau fel peiriannau golchi (o Ebrill 2023 i fis Mawrth 2025).







### Adeiladu system newydd

Rydym ni wedi nodi ein cynlluniau ar gyfer **System Budd-daliadau Cymru** a byddwn yn parhau i weithio i ddatblygu hyn. Bydd hyn yn helpu mwy o deuluoedd i gael y budd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt.

### Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael help gyda chostau iechyd

Fe wnaethom yn siŵr bod pobl yn gwybod am y canlynol:

- presgripsiynau rhad ac am ddim y GIG
- archwiliadau deintyddol rhad ac am ddim i'r rhai dan 25 mlwydd oed
- profion golwg rhad ac am ddim i blant dan 16 mlwydd oed

Rhwng 2023 a 2024 fe wnaethom ni gefnogi'r rhaglen brwsio dannedd:

- Fe wnaeth **1,176** o ysgolion a meithrinfeydd gymryd rhan
- Fe wnaeth dros **59,000** o blant gymryd rhan
- Cafodd **203,000** o becynnau brwsio dannedd eu rhoi allan.

### Helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal

Cafodd **644** o bobl ifanc oedd yn gadael gofal gymorth drwy'r Y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru.

## Helpu gyda chostau bwyd:

Cafodd **21.3 miliwn** o brydau ysgol am ddim eu gweini i blant ysgol gynradd yng Nghymru (yn 2024 i 2025).

Mae gennym ni frecwast ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd.

Fe wnaeth y Cynllun Llaeth Ysgol roi llaeth am ddim neu â chymhorthdal i **81,374 o blant** ar draws ysgolion (yn 2024 i 2025).

Rydym ni wedi rhoi **£5.85 miliwn** i gefnogi **dros 300** o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Ddarpariaeth Gwyliau Ysgol: Rhaglen Bwyd a Hwyl (yn 2025 i 2026).

Fe wnaethom ni ariannu prosiectau i ddelio â thlodi bwyd a gwastraff yn y gymuned:

- Cymorth Bwyd Cymunedol a Phrosiectau Bwyd Lleol
- FareShare Cymru
- Banciau bwyd
- Hybiau cynnes a gwasanaethau cynghori

## Helpu gyda chostau gwresogi a thanwydd

Rydym ni'n cefnogi'r Sefydliad Banc Tanwydd sy'n helpu pobl gyda chostau gwresogi. Mae **dros 212,000** o bobl wedi cael eu cefnogi ers i ni ddechrau gweithio gyda nhw.

Ers 2011 rydym ni hefyd wedi buddsoddi **£479 miliwn** yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes i wella effeithlonrwydd ynni cartref. Fe wnaeth dros **82,000 o aelwydydd** elwa o fesurau yn eu cartrefi a **210,800** gyda chyngor effeithlonrwydd ynni rhad ac am ddim.

## Helpu gyda Chostau Gwisg ac Offer Ysgol

Fe wnaeth y Grant Hanfodion Ysgol gefnogi **dros 89,000 o ddysgwyr** gyda phethau fel gwisgoedd, hanfodion ystafell ddosbarth, cit chwaraeon, ac offer gweithgareddau ar ôl ysgol (yn 2024 i 2025).

## Helpu dysgwyr yn y dyfodol

Fe wnaeth **6 clwstwr ysgol** gymryd rhan mewn prosiect newydd (yn 2024 i 2025). Fe wnaethant edrych ar sut mae tlodi yn effeithio ar brofiad plant yn yr ysgol a dod o hyd i ffyrdd o wneud pethau'n decach. Gweithiodd yn dda a bydd mwy o ysgolion yn gwneud hyn yn y dyfodol.

## Helpu teuluoedd ifanc

Rydym ni'n darparu **£2.5 miliwn** fel y gall teuluoedd gofrestru ar gyfer Bwndel Babanod. Bydd y Bwndeli Babanod cyntaf yn cael eu cyflwyno ym mis Chwefror 2026.






# Nod 2: Helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o dlodi.

## Yr hyn rydym ni wedi'i wneud i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd allan o dlodi.

### Cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Y Cyflog Byw Gwirioneddol yw'r swm sydd ei angen ar bobl i fforddio pethau sylfaenol fel bwyd, rhent a gwres.

Yn 2024, fe wnaeth **dros 67%** o weithwyr yng Nghymru ennill hyn neu fwy – mae hynny'n uwch na 2023.

### Helpu blynyddoedd cynnar

Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd â phlant dan 4 mlwydd oed yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Yn 2024 i 2025, fe wnaethom gefnogi **40,943 o blant**.

Mae'r prosiect 'Siarad Gyda Mi' yn helpu plant rhwng 0 a 4 mlwydd ac 11 mis oed sy'n cael trafferth siarad a deall geiriau. Fe wnaethom ni roi **£1.5 miliwn** i Prosiect Pengwin i ddatblygu offer ac adnoddau i helpu ymarferwyr i gefnogi plant ag anghenion lleferydd.

### Helpu plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc

Yn 2025 i 2026:

- fe wnaethom ni roi **£128 miliwn** i'r Grant Datblygu Disgyblion i helpu ysgolion i gefnogi disgyblion
- fe wnaethom ni roi **£11 miliwn** i ysgolion i roi cymorth ychwanegol i ddysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- mae gennym ni Grant Dysgu ar gyfer Addysg Bellach. Mae'n rhoi **£1,919** i oedolion ifanc sydd eisiau astudio'n rhan amser neu'n llawn amser.

Mae gennym ni hefyd Warant i Bobl Ifanc (YPG). Mae'n sicrhau lle mewn addysg, hyfforddiant neu waith i bawb 16 i 24 mlwydd oed. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe helpodd:

- **dros 12,000** o bobl ifanc i gael sgiliau
- **dros 4,000** o bobl ifanc i gael swydd.


### Helpu plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Rydym ni wedi gwneud newidiadau mawr i helpu disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ers mis Medi 2025, gall pob plentyn a pherson ifanc gael cymorth ychwanegol trwy gynllun dysgu personol. Mae **dros 32,000** o gynlluniau eisoes wedi'u creu.

### Helpu gyda chostau teithio

Rydym ni'n rhoi cynnig ar brisiau sengl £1 a theithio diwrnod diderfyn o £3 i bobl ifanc 5 i 21 mlwydd oed. Mae gennym ni gyllideb o **£22 miliwn** ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025 i 2026 a 2026 i 2027.



## Helpu pobl anabl

Rydym ni'n ymgynghori ar **Gynllun Hawliau Pobl Anabl**. Mae'n nodi nodau hirdymor i wneud bywyd yn well i bobl anabl. Mae'n cynnwys camau i leihau'r bwlch cyflog a brwydro yn erbyn gwahaniaethu.

## Helpu pobl i ddysgu sgiliau a dod o hyd i waith

Hyd yn hyn, fe wnaeth y Rhaglen Sgiliau Hyblyg helpu dros **160 o fusnesau** a **dros 10,500 o bobl** i ddysgu sgiliau newydd (2025 i 2026)

Fe wnaeth Y Gwasanaeth Di-waith helpu dros **12,000 o bobl** wella o iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau (rhwng Hydref 2022 a Medi 2025).

Fe wnaeth Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith helpu **9,000 o bobl** i aros mewn gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith (rhwng Ebrill 2023 a Medi 2025).

## Helpu pobl i ddechrau busnes

Mae Busnes Cymru/Syniadau Mawr Cymru yn helpu pobl ifanc i archwilio syniadau busnes. Ers 2021:

- mae dros **283,000 o bobl ifanc** wedi cymryd rhan mewn gweithdai
- mae **3,761** wedi cael cyngor busnes
- mae **850** wedi dechrau eu busnes eu hunain.

## Helpu gofalwyr ifanc a gofalwyr di-dâl sy'n oedolion

Mae gofalwyr yn gwneud gwaith anhygoel ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl. Gallant gael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr a seibiannau o ofalu drwy'r Cynllun Seibiannau Byr.

## Helpu teuluoedd

Mae gofal plant yn bwysig i deuluoedd. Yn 2025, fe wnaethom ni gynyddu ein cyllid i ddarparwyr gofal plant i ariannu mwy o leoedd. Gall teuluoedd sy'n gweithio, neu'r rhai mewn addysg neu hyfforddiant bellach gael **30 awr** o ofal meithrinfa neu ofal plant ar gyfer plant 3 i 4 mlwydd oed.









# Nod 3: Cefnogi lles teuluoedd, a sicrhau bod gan blant a phobl ifanc eu hawliau.

## Yr hyn rydym ni wedi'i wneud i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd

### Helpu cymunedau

Yn 2024 i 2025, roedd cyllideb y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn **£7.1 miliwn**. Fe wnaeth roi grantiau o hyd at **£300,000 i helpu grwpiau cymunedol** wella adeiladau ar gyfer pethau fel cylchoedd chwarae, banciau bwyd a gwasanaethau cyngor.

Bydd y cyllid hwnnw'n codi i **£10 miliwn** yn 2025 i 2026.

### Diogelu parciau a mannau gwyrdd

Rhoddwyd **£1 miliwn** i Cadwch Gymru'n Daclus i helpu cymunedau i wella eu hardaloedd lleol. Roedd i'w helpu i ddelio â phethau fel sbwriel a gwneud lleoedd yn well i bobl a bywyd gwyllt (yn 2025 i 2026).

### Helpu gwasanaethau lleol i weithio gyda'i gilydd

Rydym ni'n rhoi arian i gymunedau drwy'r GConfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso. Mae'n cefnogi hybiau cymunedol lle mae gwasanaethau fel meddygon teulu, gofal cymdeithasol, tai a banciau bwyd mewn 1 lle.







### Cefnogi ysgolion i fod yn ganolfannau cymunedol

Mae ysgolion yn rhan fawr o fywyd cymunedol. Maen nhw'n cael cefnogaeth ychwanegol i ddod yn Ysgolion Bro (CFS). Fe wnaethom ni fuddsoddi £60 miliwn i'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (o 2024 i 2025). Mae hyn er mwyn cefnogi ysgolion i wneud y newidiadau sydd eu hangen arnynt i agor y tu allan i oriau ysgol a bod o fudd i'r gymuned o'u cwmpas.

### Cefnogi chwarae, chwaraeon a gweithgareddau

Yn 2025:

- fe wnaethom ni roi **£1 miliwn** i'r Prosiect Gwyliau Playworks i gynyddu cyfleoedd chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol
- fe wnaethom ni ddiweddaru ein canllawiau chwarae
- fe wnaethom ni roi **£5 miliwn ychwanegol** i wella mannau chwarae

Fe wnaeth Chwaraeon Cymru ariannu **180 o brosiectau** mewn ardaloedd sy'n wynebu tlodi (yn 2024 i 2025).

Fe wnaeth Cadw eu safleoedd hanesyddol yn fwy fforddiadwy drwy gynnig **mynediad am £1** i deuluoedd ar fudd-daliadau.

## Cefnogi Gwaith Ieuenctid

Rydym ni'n datblygu Fframwaith Gwaith Ieuenctid cenedlaethol newydd. Mae'n canolbwyntio ar wasanaethau a grwpiau sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi cyfleoedd i bobl ifanc.

## Cefnogi iechyd meddwl a llesiant

Ym mis Ebrill 2025, lansiwyd ein Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd. Mae'n cynnwys camau i roi'r gefnogaeth gywir i bobl ar yr adeg iawn.

Fe wnaethom ni fuddsoddi **£2.5 miliwn** y flwyddyn i brosiectau i helpu pobl ifanc mewn argyfwng emosiynol.

## Cefnogi plant â Niwrowahaniaeth

**Niwrowahaniaeth** – pan fydd ymennydd rhywun yn gweithio ac yn prosesu pethau mewn ffordd wahanol i eraill.

Ers 2022 rydym ni wedi rhoi **£25.7 miliwn** i wella gwasanaethau i blant ag awtistiaeth ac ADHD.

Yn 2025 i 2026, fe wnaethom ni roi **£5.6 miliwn** i helpu i leihau amseroedd aros mae pobl yn eu hwynebu am gefnogaeth.

## Helpu gyda thai ac atal digartrefedd

Yn 2025 i 2026 fe wnaethom ni roi bron i **£220 miliwn** ar gyfer cymorth ac atal digartrefedd.

Rydym ni wedi buddsoddi **£360 miliwn** i adeiladu mwy o dai cymdeithasol (cartrefi fforddiadwy).

Rydym ni wedi buddsoddi **£60.5 miliwn** (yn 2024 i 2025) i'r Gronfa Tai â Gofal. Mae hyn yn helpu pobl i wneud newidiadau i'w cartrefi, fel eu bod yn diwallu eu hanghenion ac nad oes rhaid iddynt symud.

Fe wnaethom ni fuddsoddi **£155 miliwn** i adeiladu dros 1,100 o gartrefi newydd ar gyfer llwybrau allan o lety dros dro.









# Nod 4: Sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch.

## Yr hyn rydym ni wedi'i wneud i hyrwyddo urddas a pharch

### Gwneud yn siŵr bod gan blant a phobl ifanc lais

Rydym ni'n rhoi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym ni'n defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i wirio sut mae penderfyniadau yn effeithio ar hawliau plant.

Rydym ni'n gweithio gyda Cymru Ifanc a sefydliadau eraill i wrando ar farn plant ar bolisïau a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Ym mis Gorffennaf 2024, adroddodd Cymru yn ôl i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan esbonio sut mae hawliau plant yn cael eu diogelu.

### Gwneud yn siŵr bod cefnogaeth yn garedig ac yn dosturiol i anghenion plant

Mae llawer o blant sy'n byw mewn tlodi yn teimlo cywilydd, straen neu'n cael eu bwlio oherwydd pryderon ariannol.

Yn 2025 i 2026 fe wnaethom ni gynyddu'r cyllid o £400,000 i **£500,000** i gefnogi hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael profiadau anodd.

### Helpu cymunedau i roi mannau cynnes a diogel i bobl

Ers 2022, mae **£4 miliwn** wedi cael ei roi i greu Hybiau Cynnes. Mae'r rhain yn fannau cymunedol rhad ac am ddim lle gall pobl o bob oed gael cyngor, cefnogaeth a theimlo'n ddiogel a chroeso.

### Cefnogi urddas mislif

Mae gennym Gynllun Gweithredu Cymru Balch o'r Mislif. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd o ddarparu cynhyrchion mislif rhad ac am ddim mewn ysgolion a mannau cymunedol, fel nad oes unrhyw un yn colli allan oherwydd eu mislif.



### Gwneud yn siŵr bod ysgolion yn lleihau effaith tlodi

Yn 2025 i 2026, mae **£13.6 miliwn** yn cefnogi'r gwaith hwn mewn ysgolion, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae tua 9 o bob 10 ysgol yn gweithio ar gynlluniau gweithredu llesiant.

Mae Estyn yn helpu ysgolion i nodi ac ymdrin ag effaith tlodi.

### Atal gwahaniaethu

**Gwahaniaethu** — cael eich trin yn annheg oherwydd pwy ydych chi.

Rydym ni wedi cyhoeddi:

- Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.
- Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTC+

Mae'r cynlluniau hyn yn cymryd camau i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg.

# Nod 5: Sicrhau bod popeth rydym ni'n ei wneud yn helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol ac yn lleol.

## Yr hyn rydym ni wedi'i wneud i helpu gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol ac yn lleol.

### Adeiladu gwaith tîm rhwng sefydliadau

Rydym ni wedi creu ffyrdd newydd i bobl a sefydliadau rannu'r hyn sy'n gweithio a gwella gwasanaethau.

Yn 2024 fe wnaethom ni sefydlu'r Gymuned Ymarfer Trechu Tlodi. Fe wnaeth **dros 320 o weithwyr proffesiynol** gymryd rhan mewn digwyddiadau. Fe wnaethant rannu syniadau ar drechu tlodi plant.

Mae'r Grŵp Cyfeirio Allanol Tlodi Plant yn cefnogi cyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant.





### Helpu prosiectau lleol i weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth eraill

Ers 2023, rydym ni wedi rhoi **£2.4 miliwn** i 47 o sefydliadau drwy'r Grant Arloesi a Chymorth Cymunedau Tlodi Plant. Yn 2024 i 2025, fe wnaeth hyn gefnogi dros **7,300 o bobl.**

Yn 2022 a 2023, fe wnaethom ni gynnal digwyddiadau lle bu dros 500 o bobl yn siarad am yr argyfwng costau byw. Fe wnaeth hyn ganiatáu i bobl rannu'r hyn oedd yn bwysig iddyn nhw a'r hyn oedd yn gweithio i gefnogi pobl.

Fe wnaeth y Grant Arloesi Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau gefnogi llawer o deuluoedd, gan gynnwys rhieni a gofalwyr plant anabl.

Fe wnaethom ni hefyd gefnogi cynadleddau yng Ngogledd a De Cymru ar y canlynol:

- tlodi plant
- cynyddu incwm
- lleihau costau i deuluoedd.

### Cefnogi gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd a rhannu dysgu

Rydym ni'n gweithio gyda gwledydd eraill y DU i rannu syniadau, dysgu beth sy'n gweithio a sbarduno newidiadau mewn budd-daliadau lles.

### Cefnogi plant a theuluoedd ar draws y rhanbarthau

Mae gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fforymau plant a phobl ifanc erbyn hyn.

Maen nhw'n dwyn ynghyd sefydliadau iechyd, gofal, addysg a'r trydydd sector i wella gwasanaethau lleol.

### Helpu pobl ifanc i gael eu Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant

Mae gan bobl ifanc a anwyd rhwng 2002 i 2011 Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant. Mae'n arian y gallant ei gael pan fyddant yn troi'n 18. Mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn gwybod am yr arian hwn. Rydym ni'n gweithio i godi ymwybyddiaeth fel y gallant hawlio yr hyn sy'n eiddo iddyn nhw.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Rydym ni wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth ym mywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru a byddwn yn parhau i ofyn i Lywodraeth y DU wneud yr un peth. Byddwn ni hefyd yn parhau i siarad â phobl ledled Cymru i wneud yn siŵr ein bod ni'n cyrraedd ein nodau ac yn brwydro yn erbyn tlodi.

Bydd yr adroddiad nesaf ar ba mor dda mae Cymru'n gwneud a sut mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 yn gwneud gwahaniaeth yn 2028.

## Diolch am ddarllen hwn

Gallwch ddarllen Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn llawn yma:

gov.wales/child-poverty-strategy-wales-2024







